| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 20 Tachwedd 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Y newidiadau a gynigiwyd gan y Llywodraeth i Fesur Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn dilyn y craffu cyn-ddeddfwriaethol** |

## Diben

1. Hysbysu'r Pwyllgor am y newidiadau i gynigion y Llywodraeth ar gyfer Mesur drafft GIG (Cymru) o ganlyniad i'r craffu cyn-ddeddfwriaethol.

## Crynodeb

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r canlynol:

- Argymhellodd y Cynulliad dri newid i'r Mesur drafft. Rhoddwyd y tri i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cafodd un ei ymgorffori'n llawn yn y Mesur a rhan o un arall. Nid oedd modd ymgorffori'r llall am resymau cyfreithiol a thechnegol.
- Derbyniodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru 12 argymhelliad arall (wyth oddi wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a phedwar oddi wrth ymgynghorwyr eraill). Cawsant eu hymgorffori yn y Mesur lle'r oedd yn briodol i'w ddiwygio.

3. Ceir yn Atodiad A dabl sy'n crynhoi'r holl newidiadau i'r Mesur o ganlyniad i'r craffu cyn-ddeddfwriaethol.

## Amseru

4. Gofynnodd y Pwyllgor am y papur ar gyfer y cyfarfod hwn.

## Y Cefndir

5. Cyflwynwyd y Mesur ar gyfer craffu cyn-ddeddfwriaethol a'r ymgynghori cyhoeddus ar 17 Mai 2002.

6. Cafodd yr archwiliad ei gynnal gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur drafft ar 29 Mai, a chyflwynodd ei adroddiad (HSS-13-02 (p.10)) ar 24 Mehefin.

7. Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol yr adroddiad hwnnw yn y cyfarfod llawn ar 18 Gorffennaf a chytunodd y dylai'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi adroddiad ar ei chasgliadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

8. Cafodd y craffu Seneddol ei wneud gan y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig (WAC) a chyhoeddwyd ei adroddiad (HC 959) ar 10 Gorffennaf. Ar 16 Gorffennaf, bu Uwch Bwyllgor Cymru yn trafod y Mesur drafft ac adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Cynhaliwyd cyfarfod ar 2 Gorffennaf â Gweinidogion y Cynulliad a'r Swyddfa Gymreig er mwyn trafod y Mesur drafft. Cafodd ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ei gyhoeddi ar 15 Hydref 2002.

9. Gwahoddwyd 307 o sefydliadau ac unigolion i fynegi barn yn ystod y broses ymgynghori cyhoeddus. Ymatebodd 27 ohonynt a 15 arall.

10. Cafwyd 45 o argymhellion o ganlyniad i'r broses ymgynghori a'r craffu cyn-ddeddfwriaethol. Ceir yn Atodiad A restr o'r newidiadau a wnaed i'r Mesur o ganlyniad.

**Materion i'w hystyried**

11. Y tri newid i'r Mesur drafft a argymhellwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol oedd:

- **newid y term "chairman" Canolfan Iechyd Cymru (WCH) ym mharagraff 2(3) a hefyd "chairman" Cyngor Iechyd Cymuned (CHC) yn Atodlen 7A ym mharagraff 2(a) i derm diduedd o safbwynt rhyw.**

  Cafodd hyn ei ymgorffori yn y Mesur o safbwynt Cynghorau Iechyd Cymuned ond nid o safbwynt Canolfan Iechyd Cymru. Barnwyd bod cyfeirio at berson sy'n cadeirio Cyngor Iechyd Cymuned neu bwyllgor fel "chair" yn Saesneg yn gywir, ond bod swydd Cadeirydd Canolfan Iechyd Cymru yn fwy fel swydd uwch-reolwr ac felly nid yw'n "cadeirio'r" ganolfan. Nid yw'r term "chairperson" yn cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth sylfaenol, er ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn is-ddeddfwriaeth. (Mae'r Ddeddf Dehongli yn nodi'n glir ei bod ymhlyg yn ystyr termau o'r fath eu bod yn ddiduedd o ran rhyw.)

- **ychwanegu "NHS Trusts" at y cyrff ym mharagraffau 2(e) ac (f) yn Atodlen 7A y mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn gallu rhoi cyngor iddynt ac y bydd gofyn iddynt o bosibl lunio a chyhoeddi sylwadau ar Adroddiadau'r Cynghorau.**

Cafodd hwn ei ymgorffori yn y Mesur.

- **ychwanegu dyletswydd i'r corff a fydd yn cael ei sefydlu o dan baragraff 4(a)(i) yn Atodlen 7A (Cymdeithas Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru (AWCHC)) sef cefnogi ("support") a chynorthwyo'r Cynghorau wrth eu gwaith.**

  Penderfynwyd bod diben y newid arfaethedig wedi'i adlewyrchu yn y Mesur eisoes, ac felly nid oedd angen ei ddiwygio. Pe bai'n cael ei gynnwys, gellid camgymryd bod y newid yn cyfeirio at gefnogaeth *ariannol* hefyd, ac nid dyna'r bwriad. Ar wahân i hynny, nid oes gwahaniaeth rhwng "assist" a "support" o safbwynt deddfwriaeth.

12. Y newidiadau eraill mwyaf arwyddocaol oedd:

- cynnwys pwerau i'r Cynghorau fedru cael gwybodaeth oddi wrth ddarparwyr gofal iechyd y cyhoedd;

- sicrhau bod Canolfan Iechyd Cymru a Phroffesiynau Iechyd Cymru yn rhan o gylch gwaith y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol er mwyn iddi allu archwilio eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd;

  (er mwyn ymgorffori'r hyn a hepgorwyd o'r Mesur drafft gwreiddiol)

- cyfyngu pwerau'r Cynulliad i gyfarwyddo Canolfan Iechyd Cymru i'r adegau pan fo'r Ganolfan wedi methu â darparu ei wasanaeth, a hefyd wrth benodi staff, wrth bennu amodau a thelerau eu swyddi ac wrth dalu cyflogau (Atodlen 2).

  (er mwyn diogelu annibyniaeth y Ganolfan)

- dileu'r darpariaethau sy'n caniatáu i'r Cynulliad roi cyfarwyddiadau i Broffesiynau Iechyd Cymru ar arfer ei ddyletswyddau (Cymal 4(2)(c) a 4(4)).

  (er mwyn lleddfu pryderon ynghylch annibyniaeth Proffesiynau Iechyd Cymru)

**Cydymffurfio**

13. Bydd Mesur Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), pan ddaw i rym, yn cynnwys swyddogaethau ar gyfer y Cynulliad. Mae Adran 33 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn galluogi'r Cynulliad i ystyried a gwneud cynigion priodol ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Themâu trawsbynciol**

14. Nid oes themâu trawsbynciol.

**Gweithredu**

15. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iecyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Man Cyswllt**

Dylid anfon unrhyw gwestiynau ynghylch y papur hwn at y tîm sy'n delio â'r Mesur yn Adran GIG Cymru:

Bob Oliver, Ystafell 4.113, Ochr Ddeheuol, Parc Cathays, est 1054.
Steve Davies, Llawr 4, Ochr Ddeheuol, CP2, est 1158
Roger Milburn, Llawr 4, Ochr Ddeheuol, CP2, est 6971.